# Pwnc Un

# Syniadau

Mae yna straeon i’w hadrodd ymhobman.

‘Toes dim rhaid i ti fynd yn bell cyn darganfod rhywbeth cyffrous neu drist neu hapus i’w archwilio.

Rho gynnig ar ambell un neu’r cwbl o’r syniadau ac awgrymiadau sy’n dilyn,  i dy helpu di i feddwl am ffyrdd  newydd o ganfod stori.





# Syniad Un

## Cer ar Antur

# Cer Ar Antur



**Cer am dro** ac esgus dy fod ti'n dditectif yn chwilio am gliwiau newydd i ffurfio drama ohonynt. Cer â llyfr nodiadau bach efo ti fel dy fod ti'n gallu nodi dy syniadau gan gynnwys:

**5** peth 'rwyt ti'n eu gweld

**5** peth 'rwyt ti'n eu clywed

**5** arogl difyr!



## Beth Petai?

Tydi'r pethau 'rwyt ti'n eu nodi ddim yn GORFOD bod yn ddieithr neu'n od.

Falle mai'r pum peth y gweli di fydd:

- Glaswellt
- Blodau
- Menyw yn mynd â'r ci am dro
- Dyn yn rhedeg
- Dau fachgen yn chwarae pêl-droed

**Mae'r pum esiampl yma yn rai allai godi o fywyd bob dydd, ond dyma ble 'rwyt ti'n dechrau defnyddio dy ddychymyg.**




Mae hwn yn gwestiwn hynod o bwysig wrth ddechrau datblygu dy stori.

Falle bod y ddau fachgen 'rwyt ti'n eu gweld yn chwarae pêl-droed yn edrych yn hollol arferol ond **beth petai** nhw'n gallu trawsnewid i unrywbeth neu unrywun ?

**Beth Petai** y bechgyn yn chwarae i Gymru un diwrnod?
**Beth Petai** y bechgyn ar fin ymladd yn ffyrnig?
**Beth Petai** y bechgyn yn chwarae pêl-droed i elusen arbennig ac yn gorfod chwarae am 24 awr yn ddibaid?

Mae'r tair enghraifft **Beth Petai** yma yn cynnig tri man cychwyn cwbl wahanol ar gyfer eich stori, er bod pob un yn cychwyn gyda dau fachgen gwelaist di yn chwarae pêl-droed wrth fynd am dro.

**Gall straeon gychwyn yn unrywle, dim ond iti ddechrau gofyn cwestiynau.**

# Pan ofynni di fwy o gwestiynau, mae'r posibiliadau yn ddiddiwedd...

**Pan ddoi di adref ar ôl bod am dro, cymer olwg dros yr holl bethau y gwnest di eu gweld, clywed ac arogli yn dy lyfr nodiadau a dechrau gofyn cwestiynau amdanynt.**

## Er enghraifft:

Petai ti'n clywed swn lori tra'n cerdded yn y parc, gallet ti ofyn cwestiynau tebyg i'r rhain:

1. I ble 'roedd o'n mynd?
2. Pwy oedd yn gyrru?
3. Pa fath o lori oedd o?
4. Oedd y gyrrwr mewn brys? Pam?
5. Oedden nhw'n gwneud rhywbeth da neu ddrwg?
6. Allai'r lori yrru i fewn i'r parc? Pam fydda fo'n gwneud hynny?
7. Oedd o'n lori hudol? Os felly, pam roedd o yma?

**GAIR O GYNGOR:** Bydd atebion i'r cwestiynau yn rhoi man cychwyn ar gyfer dy stori





# Syniad Dai

## Sgwrsio yn dy gartref

# Sgwrsio yn dy gartref

## Siarada gyda dy deulu neu dy gymdogion.

Mae gan bawb stori – unai am rywbeth ddigwyddodd iddyn nhw neu rywbeth mae nhw'n gwybod amdano.

Unwaith eto, gelli di newid a datblygu y straeon go iawn fel lici di, yn lle gorfod eu hailadrodd yn union yr un fath ag y clywais di nhw

**Anela at gael tri sgwrs gwahanol gydag aelodau teulu neu gymdogion**

### Ceisia ofyn wrthyn nhw am eu bywyd nhw.

- Gofyn wrthyn nhw am fywyd pan oedden nhw'n blentyn
- Beth oedd yn anodd ac yn her iddyn nhw?
- Oes 'na bethau mae nhw'n gweld ei heisiau nhw neu'n methu?
- Ydyn nhw'n gallu cofio diwrnod neu ddigwyddiad arbennig yn glir? Gofynnwch am fanylion.
- Ddigwyddodd rhywbeth arswydus iddyn nhw erioed – rhywbeth na allen nhw egluro? Falle bod nhw wedi gweld golau od neu ysbryd hyd yn oed? Efallai bod pethau'n symud o gwmpas yn eu cartref heb eglurhad

## Falle bod nhw'n cofio amseroedd penodol a phwysig hanesyddol.....

- Ydyn nhw'n cofio y glanio ar y lleuad?
- Ydyn nhw'n cofio streic y glowyr?
- Ydyn nhw erioed wedi cael eu dal mewn storm fawr? Beth ddigwyddodd iddyn nhw?
- Ydyn nhw wedi gweld eclipse yr haul erioed?

Cofia ofyn sut oedden nhw'n teimlo ar y pryd a **beth ddigwyddodd ar y diwedd.**

Hefyd, gofynna am fanylion; beth oedden nhw'n wisgo, sut dywydd oedd hi, a phwy arall oedd yno?

***GAIR I GALL:*** *Cofia nodi atebion yn dy lyfr nodiadau ac yna meddylia am sut elli di gynnwys hyn yn dy drama di. Cofia –'toes dim rhaid i ti gadw at y ffeithiau gwreiddiol.*

Mi gei di ychwanegu manylion newydd a chymeriadau gwaanol ac mi elli di newid diwedd y stori os wyt ti eisiau gwneud hynny

# Syniad Tri

## Chwilota yn y Newyddion

# Chwilota yn y Newyddion




Pob un diwrnod mae llwythi o straeon ar y newyddion ar y teledu, ar y we, ar wefannau cymdeithasol ac mewn papurau newydd ledled Cymru, Prydain a gweddill y byd

**Chwilia am dri phennawd anarferol i straeon o'r newyddion.**

Gallet ti wneud hyn trwy:

- Chwilota drwy bapurau newydd neu gylchgronau adre
- Edrych ar y we (Mae gan y BBC a gwefannau newyddion eraill ddeg uchaf o straeon poblogaidd)

**Dewis bennawd sy'n apelio atat ti ac yna dechrau gofyn cwestiynau amdano.**

## Er enghraifft:

Petai yna stori am rywun yn ennill y loteri er enghraifft, dychmyga pwy allai'r person yma fod gan ofyn cwestiynau fel rhain:

- Ydyn nhw yn eitha tlawd neu oes ganddyn nhw lwythi o arian yn barod?
- Beth petai nhw'n berson ifanc ac mai dyma'r tro cyntaf iddyn nhw chwarae'r loteri?
- Beth petai rhywun yn y teulu yn dweud mai nhw oedd biau'r tocyn?
- Ym mha ffyrdd fyddai eu bywyd yn newid petai nhw'n ennill y loteri?
- Beth fydden nhw yn ei wneud gyntaf? Prynu tŷ a char newydd?
- Beth petai nhw wedi ennill yr holl arian hyn ond yn methu ei wario mewn cyfnod ble mae'r siopau ar gau ac mae hi'n amhosib mynd i unlle?

***GAIR I GALL:*** *Unwaith y dechreui di holi cwestiynau, mi fydd dy syniad yn dechrau tyfu. Unwaith rwyt ti wedi nodi nifer o syniadau posib, dewsa un, a dechrau datblygu cymeriadau a stori ohono.*



# Syniad Pedwar

## Gwrando ar Gerddoriaeth

# Gwrando ar Gerddoriaeth

## Gwranda ar ddarn o gerddoriaeth neu gân arbennig.

Dewisa rywbeth anghyfarwydd, yn lle cerddoriaeth 'rwyt ti'n ei adnabod yn barod.

- Tro'r radio 'mlaen a gwrando ar beth bynnag sydd yn chwarae.
- Cau dy lygaid a gâd i'r gerddoriaeth fynd â ti i le ac amser gwahanol
- Pwy sydd yno gyda ti? Beth mae nhw eisiau ei wneud?
- Pa fath o fyd mae'r gerddoriaeth yn gwneud iti feddwl amdano? Ydi o'n wahanol iawn i dy fyd di?



**GAIR I GALL:** Gwranda ar BBC Radio 3 neu Classic FM er mwyn clywed darn o gerddoriaeth yn lle cân



# Syniad Pump

## Defnyddia Lun neu Ffotograff













# Defnyddia Lun neu Ffotograff

Yn aml iawn, gall lun neu ffotograff greu golygfa yn ein dychymyg.

Mae pobl yn gwneud rhywbeth o fewn y darlun, ond mae nhw wedi eu rhewi ar ganol gweithred.

Dewis un o’r darluniau neu ffotograffau isod.

Edrych yn fanwl arno a meddylia am:

- Pwy ydi’r bobl yma ? Os nad oes ‘na bobl, pam ddim?
- Beth maen nhw’n ei wneud?
- Beth ddigwyddodd cyn y darlun?
- Beth allai ddigwydd nesaf?

**GAIR I GALL:** Cymer ysbrydoliaeth o’r darluniau a ffotograffau a gofynna lawer o gwestiynau amdanynt i dy helpu i ffurfio dy stori.

# I gloi:

Gâd i bawb a phopeth o dy gwmpas dy ysbrydoli.

‘Toes dim rhaid i ddrama dda ddigwydd mewn gwledydd pell a dieithr – gall fod reit ar dy stepen drws!

Unwaith mae gennyt ddechreubwynt, gofynna lwythi o gwestiynau er mwyn datblygu cymeriad a stori.

Efallai mai’r cwestiwn pwysicaf bob amser yw **Beth Petai**?

**Gall y cwestiwn yma danio dy ddychymyg a mynd â ti i unrywle....**

